

# AcademiWales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

#GwasanaethauCyhoeddus

## Adroddiad Blynyddol 2015-16



# Cynnwys

Ffeithlun	
Rhagair	2
Gyda phwy yr ydym yn gweithio	3
Ynglŷn â ni	4
Beth ydym yn ei wneud	5
Gwerthoedd ac Ymddygiadau Gwasanaeth Cyhoeddus	6
Cynadleddau ac ysgolion	8
Rhaglenni datblygu	14
Dosbarthiadau meistr a seminarau arbenigwyr	20
Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol	21
Cydnabod rhagoriaeth	24
Cyhoeddiadau	25
Enw da ac ymgysylltu	26

Rydym wedi hyfforddi  
**9,383** o gynrychiolwyr



Cost gyfartalog o  
**£132** am bob  
cynrychiolydd



o ddiwrnodau  
hyfforddi  
wedi'u cynnal

Rydym wedi rhoi  
hyfforddiant i dros




o sefydliadau

Rydym wedi  
dylunio a  
darparu



o gynadleddau  
mawr ac  
ymddygiadau  
ysgolorion

Rydym wedi derbyn  
adborth cadarnhaol  
o'n digwyddiadau  
a'n rhaglenni, a'r  
cyfartaledd oedd



Bu i ni lansio ein  
Gwerthoedd ac  
Ymddygiadau  
Gwasanaeth  
Cyhoeddus



**171,012**  
o ymweliadau  
â'n gwefan



**2,490**  
o danysgrifwyr i'r Bwletin



**2,894**  
o ddilynwyr  
ar Twitter

# Rhagair

Mae Academi Wales wedi bod yn rhan o bortffolio'r Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus am y 15 mis diwethaf. Yn ei araith gyntaf un ers arwain y portffolio hwn dywedodd y Gweinidog bod 'Academi Wales wedi bod yn gwneud gwaith da o dan y radar a'i bod yn amser nawr i godi ei broffil'....ac rydym wedi gwneud hynny.

Nid yw ein proffil a'n dylanwad ar dirlun gwasanaethau cyhoeddus Cymru erioed wedi bod yn fwy. Yn ogystal â chynllun busnes cynhwysfawr, bu i ni hefyd gynnal uwchgynhadledd arweinyddiaeth traws sector ar gyfer y wlad gyfan, ble bu i ni lansio set o Werthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ac Ymddygiadau Arweinyddiaeth. Erbyn hyn mae'r rhain wedi eu hintegreiddio yng ngwaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac maent yn ganllawiau ar sut y mae gweision cyhoeddus yn gweithio ac yn ymddwyn.

Wrth i gysyniad 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru' agosáu, a bod y naratif a'r diwylliant wedi dechrau cael momentwm, rydym wedi chwarae rôl ganolog mewn perthynas â newid, cefnogi, galluogi a datblygu arweinwyr i allu cyflawni'r dyfodol nawr.

Bu i ni wynebu ein heriau blynyddol gydag angerdd, teimlad o bwrpas a gyda chefnogaeth lwyr i'n gilydd, ac wrth wneud hynny bu i ni ddangos ein gwerthoedd ein hunain yn ein gweithredoedd, gan 'helpu pobl i dyfu drwy ddysgu'. Eleni mae dros 9,300 o weision cyhoeddus wedi cymryd rhan mewn dros 333 o ddiwrnodau hyfforddi ar draws ein portffolio o raglenni ac ymyriadau, oedd yn amrywio o reoli newid mawr yng nghorff sefydliadau, datblygu tîm gweithredol, datblygu byrddau, profiadau arweinyddiaeth glinigol, cynlluniau hyfforddiant i raddedigion a chyfleoedd dysgu rhyngwladol.

Bu arweiniad cyson ein Bwrdd Cyngori yn allweddol i'n llwyddiant, gan siapio a chefnogi ein hymdrechion strategol a gweithredol, yn ogystal â gweithredu fel llysgenhadon i Academi Wales a'n gwaith.

Yn Academi Wales rydym yn falch o fyw yn ôl ein gwerthoedd, gyda ffocws ar gydweithredu, ansawdd, cynaliadwyedd a gwella, a'r cyfan yn cael ei gynnal gan amgylchedd tîm cydnerth, emosïynol ddeallus a gydag ymddiriedaeth gadarn. Rydym yn gofalu bod pob un ohonom yn atebol i'r cerrig sylfaen yma, a'r rhain sy'n cyfrannu at ein llwyddiant.

Wrth i ni gyrraedd tymor newydd o lywodraeth, rydym yn aros i weld beth ddaw yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Rydym eisoes yn gwybod y bydd llai o adnoddau ariannol yn effeithio arnom, a bydd hynny yn achosi i ni feddwl yn faith a thrylwyr am ein galluoedd, yn unigol ac ar y cyd, ac i fod yn fwy dyfeisgar. Rydym yn edrych ymlaen at ymateb i flaenoriaethau arweinyddiaeth Rhaglen Lywodraethu newydd a'r cyfleoedd y bydd hynny'n eu creu.

Rydym yn cynnig yr adroddiad blynyddol hwn fel naratif o'r flwyddyn ddiwethaf ac fel cyfle i ddysgu mwy am ein gwaith yn Academi Wales, a hoffwn gloi'r rhagair hwn drwy ddiolch yn fawr iawn i'r 9,000 ohonoch sydd wedi gweithio gyda ni eleni. Rydym yn gobeithio eich bod wedi mwynhau'r profiad cymaint â ni!

Yn bwysicaf oll, diolch yn fawr i dîm Academi Wales am eich gwaith caled a'ch penderfyniad, rydych wir yn esiampl o grŵp o bobl ymroddedig, talentog ac ymgysylltiol.



**Jo Carruthers,**  
Cyfarwyddwr,  
Academi Wales

# Gyda phwy yr ydym yn gweithio

Rydym yn cynnig ein hystod o gynhyrchion a gwasanaethau i arweinwyr a rheolwyr sy'n gweithio ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y sectorau canlynol:

<b>Addysg</b>	Ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru
<b>Tân ac Achub</b>	Sefydliadau Tân ac Achub yng Nghymru
<b>Awdurdodau Lleol</b>	Awdurdodau Lleol yng Nghymru
<b>GIG Cymru</b>	Sefydliadau GIG Cymru
<b>Yr Heddlu</b>	Gwasanaethau Heddlu yng Nghymru
<b>Trydydd/Gwirfoddol</b>	Sefydliadau'r Trydydd Sector/Sector Gwirfoddol yng Nghymru
<b>Llywodraeth Cymru</b>	Adrannau Llywodraeth Cymru,
<b>Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru</b>	Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru a ariannir gan Lywodraeth Cymru
<b>Whitehall</b>	Sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru a gynhelir gan Lywodraeth y DU
<b>Cyrff a Noddir gan Whitehall</b>	Sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru a ariannir gan Lywodraeth y DU
<b>Arall</b>	Gwesteion o sefydliadau nad ydynt yn cael eu cynnwys gan ddiffiniadau blaenorol

# Ynglŷn â ni

*'Sefydliad rhagorol sy'n cynnig ystod o gyfleoedd i'r rhai sy'n awyddus i ddatblygu eu hunain yn bersonol a phroffesiynol. Staff gwybodus y mae'n hawdd troi atynt.'*

*Arolwg Blynyddol Dysgwyr 2016*

Academi Wales yw'r ganolfan ragoriaeth ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd ym mis Medi 2012 ac mae Academi Wales yn rhan o bortffolio'r Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus.

Rydym yn amcanu at greu dyfodol i Gymru ble mae arweinyddiaeth ein gwasanaethau cyhoeddus yn weledigaethol, cydweithredol, arloesol a llwyddiannus o ran creu gwelliannau ym mywydau pobl sy'n byw yng Nghymru. Mae ein dull o weithio yn seiliedig ar nifer o athrawiaethau dysgu yn cynnwys y syniadau bod raid i ni 'arwain i ddysgu' ac nad ydym byth yn rhoi'r gorau i ddysgu er mwyn cyflawni ein gwaith, beth bynnag fo'n hoedran neu ein hynafedd.

Rydym yn credu bod arweinwyr sy'n rhoi amser i fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu eu hunain yn hapusach, yn byw yn ôl eu gwerthoedd, yn deall eu pwrpas personol ac yn cael mwy o lwyddiant personol a phroffesiynol.

Gan wybod ein bod angen arweinwyr sy'n optimistaidd yn wyneb newid ac yn llym o realistig ynglŷn â maint yr ymdrech a'r dewrder sydd ei angen i lwyddo, gweithredu'r gwerthoedd hyn sy'n gwneud y gwir wahaniaeth. Rydym wedi mabwysiadu

Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, sef Gweithio ar gyfer y Tymor Hir, Tyfu a Gwella Bob Amser, Gweithio gyda'n Gilydd, Trin Pawb gyda Pharch a Blaenoriaeth i Ddinasyddion yn ein holl arferion gweithio.

Dan arweiniad ein Bwrdd Cyngori a'r Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus, rydym yn gweithredu yn y gofod rhwng blaenoriaethau cenedlaethol ac angen lleol.

Rydym yn gosod y safon ar gyfer arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus ac yn galluogi pobl i weithio gyda'r rhain er mwyn darparu gwasanaethau sydd wirioneddol yn gwneud gwahaniaeth. Rydym yn parhau i helpu i harneisio talent arweinwyr ar draws ystod eang o feysydd proffesiynol a disgyblaethau ac rydym yn falch o weithio ar draws pob sector yng Nghymru.

Rydym wedi herio ein hunain eleni i ymdrechu i gyrraedd safonau darparu uwch, i roi gwerthoedd ar waith, gwella ymddygiadau, sicrhau mwy o ddylanwad, cynyddu effeithlonrwydd a chydweithredu'n ystyrlon.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'n gweithgaredd ac yn adrodd y stori ynglŷn â sut mae pwrpas, angerdd a dyfalbarhad tîm bychan yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yng Nghymru.

Ceir mwy o wybodaeth am yr holl raglenni a chynhyrchion ar wefan Academi Wales

[www.llyw.cymru/academiwales](http://www.llyw.cymru/academiwales)

# Beth ydym yn ei wneud

## Llywodraethu a Datblygu Byrddau

- Rydym yn datblygu ymyriadau ac adnoddau er mwyn cynorthwyo byrddau i gydnabod pwysigrwydd llywodraethu da.
- Rydym yn cefnogi datblygiad arweinwyr gwleidyddol, aelodau gweithredol, aelodau anweithredol ac aelodau annibynnol o fyrddau.

## Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol

- Rydym yn dylunio ac yn cynnal rhaglenni arweinyddiaeth, rheoli a datblygu sefydliadol, yn cynnwys gweithdai, dosbarthiadau meistr a phrosiectau.
- Rydym yn gweithio â grwpiau arweinyddiaeth proffesiynol, prifysgolion, melinau trafod a chymunedau.

## Talent ac Olyniaeth

- Rydym yn rhoi cyfleoedd unigryw i arweinwyr adolygu ac adnewyddu eu sgiliau.
- Rydym yn cefnogi datblygu gweithgareddau rheoli talent ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## Gwelliant a Newid Parhaus

- Rydym yn adeiladu capasiti 'gwelliant parhaus' (GP) drwy godi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau.
- Rydym yn gwella capasiti GP drwy gefnogi rhwydweithiau a rhoi lle i wella a thyfu.

## GIG/Datblygu Arweinyddiaeth Broffesiynol

- Rydym yn cefnogi dylunio a chynnal rhaglenni rheoli arweinyddiaeth a datblygu sefydliadol.
- Rydym yn alinio ein gwaith ag agenda darparu gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithlu, yn cynnwys arweinwyr gwleidyddol, gweithredol, clinigol a phroffesiynol eraill.

## Enw Da ac Ymgysylltu

- Rydym yn sicrhau bod ein cynhyrchion a'n gwasanaethau yn cael eu cynnal yn dda, yn gost effeithiol ac yn unol â safonau a gofynion Llywodraeth Cymru.
- Rydym yn rheoli ymgysylltu cleientiaid a rhanddeiliaid, caffael, prosesu ariannol a monitro cyllidebau.

# Gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus: y gwerthoedd yr ydym yn eu harddel



## Gweithio ar gyfer yr Hirdymor:

Mae diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain yn gofyn am integreiddio a chydweithredu hirdymor a mynd i'r afael â llesiant pobl a chymunedau, ffyniant economaidd a iechyd yr amgylchedd naturiol.



## Tyfu a Gwella Bob Amser:

Byddwn ar ein gorau er mwyn dinasyddion a'n gilydd drwy ddewis agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol, cofleidio dysgu a datblygu a rhannu syniadau ynglŷn â ffyrdd o wella a darparu gwasanaethau cyhoeddus.



Cydweithio: Pan fo pawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn gwerthfawrogi cyfraniadau pobl eraill, yn rhannu egwyddorion cyffredin ac yn cydweithredu er lles pobl Cymru, oddi mewn ac ar draws ffiniau sefydliadol a sectorau.



Trin Pawb â Pharch: Mae cydnabod, gwerthfawrogi a pharchu amrywiaeth pobl Cymru yn rhan ganolog o weld pobl fel unigolion a gwneud y peth iawn, ar yr adeg iawn ac yn y man iawn ar gyfer dinasyddion a'n gilydd.



## Rhoi Dunasyddion yn Gyntaf:

Mae angen i'n sefydliadau ganolbwyntio ar anghenion pobl Cymru. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u cymunedau.



## Gwerthoedd ac Ymddygiadau Gwasanaeth Cyhoeddus

Yn ystod 2015, rydym wedi gweithio ag eraill ar draws y gwasanaeth cyhoeddus er mwyn datblygu set o werthoedd gwasanaeth cyhoeddus ac ymddygiadau arweinyddiaeth er mwyn arwain y ffordd yr ydym yn gweithio, newid diwylliant a siapio'r ffordd y mae pob un ohonom yn ymddwyn.

Rydym wedi ymgysylltu â staff ar bob lefel er mwyn creu Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ac Ymddygiadau Arweinyddiaeth a'u cyflwyno mewn ffordd ddeniadol a hygyrch. Ein nod oedd y byddai staff ar bob lefel yn gallu deall beth maent yn ei olygu a sut maent yn cael eu troi yn weithredoedd yn y gweithle.

Bwriedir i'r gwerthoedd a'r ymddygiadau arweinyddiaeth fod yn rhan o naratif craidd, sy'n uno cyfrifoldebau Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol er mwyn helpu i greu Cymru yr ydym yn dymuno byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'n ffordd o feddwl ac ymddwyn – datblygu dyfodol ble gall pob un ohonom weithio gyda'n gilydd gyda phwrpas ar y cyd gyda gweledigaeth a gwerthoedd cyffredin.

## Sut ydym yn siapio dyfodol 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'

Rydym ar gychwyn newid sylfaenol tuag at ddinasyddion a chymunedau sydd â mwy o rym, a gwladwriaeth sy'n galluogi mwy.

Sut ellir meithrin y newid hwn fel bod yr ymateb i sefyllfa ariannol yn un a ysgogir gan werthoedd sy'n galluogi, ac annog newid cadarnhaol a chynaliadwy mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus?

Mae'r gwerthoedd a'r ymddygiadau yn creu diwylliant sy'n torri ar draws ffiniau sefydliadol a sectorau, pan fo pawb yn rhannu o'r ymdrech gyffredin hon, ac yn rhannu gwerthoedd cyffredin ac yn cydweithio er lles pobl Cymru.

Mae byw yn ôl y gwerthoedd hyn yn golygu bod yn annibynnol ond eto'n atebol, bod yn ddewr a chreu diwylliant sy'n agored a thryloyw ble mae pobl yn cyflawni eu potensial.

# Cynadleddau ac ysgolion

Bu i ni ddylunio a darparu ystod o gynadleddau, digwyddiadau dysgu ac ysgolion preswyl yn ystod y flwyddyn.

- Ysgol Haf Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, 22-26 Mehefin 2015, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan
- Cynhadledd Arweinyddiaeth Glinigol ac Ymgysylltu, 30 Medi 2015, Caerdydd
- Uwchgynhadledd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 26 Tachwedd 2015, Stadiwm Liberty, Abertawe
- Cynhadledd Flynyddol Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC) (24 Tachwedd 2015)
- Ysgol Aeaf Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2016, 2-4 Chwefror 2016, Nant Gwrtheyrn, Gogledd Cymru.

## Cyfraniadau i gynadleddau

Roedd ein cyfraniadau i gynadleddau yn cynnwys ystod o weithdai arweinyddiaeth a datblygiad sefydliadol, sesiynau a chynrychiolaeth mewn cynadleddau cenedlaethol ac yn y DU.

Mae'r enghreifftiau yn cynnwys:

- Cynhadledd Genedlaethol CIPD y D.U. - Archwilio a Cherdded - rhannu'r rhaglen ddatblygu
- Cynhadledd Bwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Gaerfyrddin - Cynhadledd Arweinyddiaeth Gydweithredol
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Tueddiadau mewn Arweinyddiaeth yn y Dyfodol
- Cynhadledd Llesiant Tai Pawb - Arweinyddiaeth addasol ar gyfer darparu yn y dyfodol
- Cynhadledd Flynyddol Gofal a Thrwsio - Deall Cydnerthedd yn ystod cyfnod o Newid
- Fforwm Polisi Cymru - Datblygu Arweinyddiaeth ar gyfer y dyfodol
- Cynhadledd Staff Cyngor Gofal Cymru
- Deall Gwytnwch Meddyliol a Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol



## Ysgol Haf Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

### Thema: Arwain y Ffordd - Creu Sefydliadau Cadarnhaol

*'Wrth fy modd yno, mae unrhyw beth yn bosibl os ydych yn credu ac yn glynu at eich gweledigaeth ac at eich gilydd'*

*Roedd #SSWales yn rhyfeddol. Diolch staff @AcademiWales, hwyluswyr, siaradwyr a chyd gynrychiolwyr a sicrhodd iddo fod yn brofiad diffiniol o ran fy ngyrfa, ac yn ysbrydoledig'*

Roedd y rhaglen ddysgu breswyl pum diwrnod flynyddol a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, yn dathlu ei phen-blwydd yn 10 oed yn 2015.

Daethom â chymuned ddysgu o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru at ei gilydd, ac fe'i dewiswyd drwy broses ddethol gystadleuol, oherwydd mae'r galw am y digwyddiad hwn bob amser yn fwy na'r llefydd sydd ar gael.

Roedd yr wythnos yn gyfle i arweinwyr adolygu a diweddarau eu sgiliau, cael mewnwelediad i brosesau arweinyddiaeth arloesol ac archwilio dulliau arloesol o ddarparu:

- 10 o brif gyflwyniadau gan siaradwyr o fri rhyngwladol
- 2 gyflwyniad gan Weinidogion Llywodraeth Cymru
- 16 gweithdy, 16 grŵp wedi'u hwyluso a 6 hyfforddwr gweithredol cymwys
- Achrediad dewisol tuag at gymhwyster ôl-radd



# Cynhadledd Arweinyddiaeth Glinigol ac Ymgysylltu

## Thema: Gweithio fel Un

*'Roedd sgwrs Steve Radcliffe yn ysbrydoledig a bu i mi ddysgu llawer ganddo. Rhoddodd nifer o bethau i mi feddwl amdanynt ynglŷn â sut arweinydd ydw i a sut allaf ddefnyddio fy 'ysbryd' i arwain eraill a'u galluogi i fod yn arweinwyr eu hunain'*

*'Trafodaeth ddiddorol iawn gyda siaradwyr gwybodus'*

Bu i dros 200 o arweinwyr a rheolwyr ar draws y GIG, yn cynnwys nifer o glinigwyr, fynychu'r drydedd gynhadledd flynyddol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar integreiddio gwasanaeth a dulliau systemau cyfan o ddarparu gofal.

Cadeiriwyd y gynhadledd gan Yr Athro Ceri Phillips, Pennaeth Coleg Gwyddorau Dynol ac Iechyd Prifysgol Abertawe, gyda'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd, Vaughan Gething, Prif Weithredwr GIG Cymru, Andrew Goodall a'r Prif Swyddog Meddygol, Dr Ruth Hussey yn annerch y cynrychiolwyr. Bu i'r Athro Jean White gyflwyno staff o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a gyflwynodd stori am glaf a'r rhaglen gofal arloesol a sefydlwyd ar gyfer yr unigolyn yma.

Hefyd, bu i enillwyr a rhai gyrhaeddodd rownd derfynol Gwobrau GIG Cymru 2015 rannu eu gwaith fel rhan o sesiynau grŵp ar arferion arweinyddiaeth.

Bu i'r gynhadledd dderbyn cyfradd bodlonrwydd cyffredinol o 98% a llawer o adborth cadarnhaol am y siaradwyr.



Cynadledwyr yn trafod yn y Gynhadledd Arweinyddiaeth Glinigol ac Ymgysylltu

## Uwchgynhadledd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

### Thema: Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

*'#publicservicewales mae "ysbrydoledig" yn air sy'n cael ei ordddefnyddio heddiw. Mae @ Joywillows yn ei ddiffinio.'*

*'Rhagorol ac ysgogol'*

*'Gwirioneddol ysbrydoledig. Rwyf wedi ei fwynhau. Wedi dysgu cymaint ac wedi cyfarfod â chymaint o bobl'*

Bu i Uwchgynhadledd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, y digwyddiad cyntaf o'i fath yng Nghymru, ganolbwyntio ar beth mae 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru' yn ei olygu mewn perthynas ag arweinyddiaeth a newid. Roedd yn gyfle i uwch arweinwyr sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus ymgysylltu â datblygu'r fenter hon, gan rannu set o werthoedd a chydweithio.

Yn ystod y rhaglen deuddydd bu i gydweithwyr rannu mewnwelediadau i'w heriau ac archwilio buddion datblygu dull 'Un Gymru' benodol ar gyfer dyfodol gwasanaethau cyhoeddus.

Roedd hyn yn cynnwys:

- 11 o sesiynau cyflawn wedi eu cynnal gan bobl amlwg, siaradwyr ac arweinwyr rhyngwladol sy'n arbenigwyr yn eu maes
- 1 dosbarth mistr (yn agored i gynulleidfa ehangach)
- 14 sesiwn grŵp (yn gysylltiedig ag un o themâu allweddol yr uwchgynhadledd)



Bae Abertawe

## Cynhadledd Flynyddol Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC)

**Thema: Sut ydym yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth? - Rydym yn taro'r targed ond yn methu'r pwynt**

*'Cynhadledd ragorol.*

*Cymuned gref o bobl o amrywiaeth o sectorau wedi eu clymu i'r cysyniad ac arferion gwelliant parhaus. Da iawn.'*

*'Dim ond eisiau dweud ei fod yn ddigwyddiad ysbrydoledig oedd wedi ei drefnu yn dda, a pharhewch â'r gwaith da'*

*'Rhagorol drwyddo draw, oherwydd fy mod yn dod o Dorset, rwy'n genfigennus iawn o'ch sefydliad.'*

Bu i'r bedwaredd gynhadledd flynyddol, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, gael ei 'hunanariannu' am y tro cyntaf yn ei hanes a bu iddi ddenu dros 200 o gynrychiolwyr.

Cadeiriwyd y digwyddiad gan Huw Jakeway, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (SWF&RS) ac roedd y siaradwyr yn cynnwys Ian Macdonald, Debbie Green, Owen Jones a John Seddon. Hefyd, bu i'r Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews AS, lansio Gwobrau AWCIC 2016 yn swyddogol.

Hefyd, bu i gynrychiolwyr fynychu gweithdai a sgysiau dosbarth meistr yn seiliedig ar y thema. Bu i ni dderbyn adborth cadarnhaol ar bob agwedd o'r digwyddiad.



*John Seddon yn cyflwyno ym 4edd Cynhadledd Flynyddol AWCIC yn yr All Nations Centre*

## Ysgol Aef Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2016

### Thema: Arwain gyda Phwrpas, Angerdd a Dyfalbarhad

*'Dadansoddiad ysgogol oedd yn pricio'r meddwl ac yn ysbrydoledig, sy'n eich arfogi i ymdrechu i greu newid gwirioneddol. Ar ôl yr Ysgol Aef does dim esgus, yr unig rwystr sydd ar ôl yw chi eich hun.'*

*'Gwych! Cwrs ymarferol rhagorol sy'n rhoi cyfleoedd i rwydweithio ag eraill er mwyn atgyfnerthu neu herio eich syniadau.'*

Roedd y rhaglen breswyl, oedd yn seiliedig ar ddysgu cyfunol, yn rhoi mynediad i siaradwyr o fri rhyngwladol a rannodd eu gwybodaeth a'u harbenigedd.

Bob dydd roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar agwedd benodol o'r thema gyffredinol ac roedd yn cynnwys:

- 3 prif siaradwyr
- ymarferiad grŵp ynglŷn â meddwl beirniadol
- 1 siaradwr ar astudiaeth achos

Yn y bumed gynhadledd flynyddol, a gynhaliwyd yn Nant Gwrtheyrn, Gogledd Cymru, daeth arweinwyr lefel uchaf at ei gilydd er mwyn creu ffyrdd newydd o arwain a rheoli a datblygu dulliau newydd o optimeiddio perfformiad ar bob lefel.



Nant Gwrtheyrn, Gogledd Cymru

# Rhaglenni datblygu

## Llywodraethu a Datblygu Byrddau

Dau ar y Brig - ar gyfer Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr

Bu i ni weithio gyda chynrychiolwyr er mwyn i'r rhaglen arwain at ddeilliannau penodol, megis archwilio eu rolau gwahanol, natur eu perthynas weithio a'u dylanwad ar y sefydliad ehangach. Yn ystod y rhaglen bu iddynt fireinio eu gallu i gydweithredu ar faterion critigol mewn perthynas â gwasanaethau a gwella perthnasoedd er mwyn arwain at newid sylweddol o ran effeithiolrwydd sefydliadol.

Roedd y sefydliadu a gymerodd ran yn cynnwys:

- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru,
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a
- Bwrdd Iechyd Lleol Powys.

### Rhaglen Datblygu Byrddau

Bu i gyfranogwyr ar y rhaglen tair rhan hon gymryd rhan mewn gweithgareddau arbrofol yn seiliedig ar fodel astudio 'amser real' Ysgol Harvard Kennedy. Bu i fyrddau ddefnyddio eu profiad o gyfarfodydd bwrdd cyhoeddus a ffilmiwyd er mwyn dysgu am ymddygiadau effeithiol, rhinweddau arweinyddiaeth, dylanwadu ac awdurdod personol ac effaith.

Bu i'r rhaglen:

- gynnwys pob aelod o'r byrddau, gweithredol ac annibynnol,
- ymdrin â chymhlethdodau sefyllfaoedd lefel bwrdd,
- herio'r ffyrdd y dylai byrddau ymddwyn, a
- datblygu dulliau unigol a chyfunol o ofyn cwestiynau priodol a gwneud y penderfyniadau iawn.

Bu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gwblhau'r rhaglen hon ym mis Rhagfyr 2015.

### Imiwnedd i Newid

Roedd y rhaglen hon yn seiliedig ar ymchwil gan Ysgol Fusnes Harvard i ddeall pam fod sefydliadau, timau ac unigolion yn wrthiannol i newid gan ganolbwyntio ar ganfod ymrwymadau cystadleuol i newid ar lefel bwrdd.

Roedd y sefydliadau a gymerodd ran yn cynnwys:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, a
- Thîm Gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Felindre

### Rhaglen Arweinyddiaeth Aelodau Etholedig

Roedd y rhaglen hon yn gyfle i arweinwyr archwilio'r ffyrdd diweddaraf o feddwl o ran arweinyddiaeth wleidyddol ac i gaffael yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn wynebu'r heriau y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu o ganlyniad i doriadau, diwygiadau lles a'r aildrefnu posibl ar wasanaethau cyhoeddus.

Mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL), bu i ni gynnal dwy raglen arweinyddiaeth lwyddiannus ar gyfer aelodau etholedig, a bu i nifer dda eu mynychu.

### Timau / Byrddau sy'n perfformio'n dda

Bu i ni gynnal gwaith datblygu ar fodel gallu hunanasesiad er mwyn i fyrddau allu asesu eu hunain yn erbyn dangosyddion allweddol yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o sefydliadau cyhoeddus a phreifat byd-eang sy'n perfformio'n dda.

Rydym yn bwriadu profi a mireinio'r model drwy gynnal mwy o brofion yn ystod 2016/2017, ac yna bydd y model ar gael i dimau gorau'r sector cyhoeddus ei ddefnyddio.



## Datblygu Byrddau'n Bwrpasol

Bu i ni ddarparu ystod o ymyriadau ar gyfer aelodau byrddau, yn cynnwys datblygu tîm gweithredol, hyfforddi a mentora a datblygu proffesiwn benodol ar gyfer cyfarwyddwyr nyrsio, aelodau annibynnol ac ysgrifenyddion byrddau. Roedd y sefydliadau y bu i ni weithio gyda hwy yn cynnwys Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

## Datblygiad Uwch Arweinwyr y GIG (Profiad Arweinyddiaeth Uwch)

Roedd y rhaglen hon yn cyfuno diagnosteg, dysgu yn y dosbarth a phroffilio gyda hyfforddiant datblygu personol a thrafodaeth. Bu i ni gefnogi a herio grŵp o 18 o gynrychiolwyr mewn sesiynau a ddyluniwyd i ddwysau myfyrdod personol a throsglwyddo dysgu. Bu i ni ddod â'r grŵp at ei gilydd ar gyfer adolygiad chwe mis ar ôl y profiad cychwynnol er mwyn rhannu a dathlu'r hyn a gyflawnwyd ganddynt.

*'Mae SLE wedi rhoi gwell mewnwelediad i mi i sut wyf yn gweithredu o fewn fy rôl arweinyddiaeth a sut y gallaf barhau i ddatblygu'*

Roedd y noddwr sefydliadol hefyd yn bresennol er mwyn clywed beth oeddent wedi ei ddysgu yn bersonol, am yr effaith sefydliadol, ac roedd y llwyddiannau yn cynnwys:

- newid rolau a chyfrifoldebau
- ennill dyrchafiad i rôl lefel cyfarwyddwr
- gwella hunanymwybyddiaeth a deallusrwydd emosiynol
- trosglwyddo dysgu ar draws eu gwasanaethau a'u sefydliadau

## Rhaglen Dysgu a Rhannu

Roedd y digwyddiadau hyn yn boblogaidd iawn ymysg ymarferwyr gwelliant parhaus, oedd yn gallu cael mewnwelediadau gwerthfawr a chael profiad o gymhwyso methodoleg yn ymarferol.

Roedd y rhain yn cynnwys Rheoli Gweledol, Gweithio Hyblyg, Meddwl am Systemau, Gwelliant Cyflym, Ffurio a Gweithredu Strategaethau, Mapio Prosesau, Datrys Problemau, Cynhyrchu Syniadau, Sicrwydd Ansawdd, Annog Arloesedd, Meddwl Darbodus ac Ymgysylltu Staff.

Roedd pob digwyddiad yn cael ei gynnal gan sefydliad o Gymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC), yn cynnwys Airbus, Grŵp Tai Arfordirol, Swyddfa Ystadegau Gwladol, Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, Admiral a Nesta.

*'Cwpl o fisoedd heriol a chyffrous, cyfle y byddaf yn ddiolchgar amdano am byth, ac un y buaswn yn ei ailadrodd ar amrantiad, petawn yn cael hanner cyfle.'*

*'Mae Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol wedi rhoi ffocws newydd i mi o ran gallu helpu yn y sector cyhoeddus.'*

*'Bu i mi ddychwelyd i'r gwaith yn teimlo fy mod wedi fy ngrymuso a fy mod wedi fy mharatoi yn well ar gyfer wynebu'r heriau.'*

## **Rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (CDRh)**

Cafodd pymtheg o gyfranogwyr gyfle unigryw i dreulio wyth wythnos yn Affrica Is-Sahara. Bu i gynrychiolwyr ar y rhaglen arweinyddiaeth ryfeddol hon weithio gyda sefydliadau Affricanaidd, gan arwain prosiectau rheolaethol penodol.

Mae'r Cynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol, a ariennir gan raglen Cymru o Blaid Affrica, yn darparu ffyrdd ymarferol o gefnogi Cymru o ran ei chyfraniad tuag at gyflawni Amcanion Datblygu Cynaliadwy (SDG) y Cenhedloedd Unedig (UN), o ddileu tiodi erbyn 2030.



*Caroline Maddocks, cyfranogwr ILO yn Lesotho*

**Archwilio a Cherdded**

*'Rhaglen wych, bu iddi greu llonyddwch dwfn. Roedd yn galonogol clywed am brofiadau pobl eraill o weithio yn y sector cyhoeddus'*

**Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol:**

*'Cwrs gwych, cymaint o gynghorion ymarferol defnyddiol a thechnegau i'w defnyddio a'u rhoi ar waith yn syth'*

**Ymwybyddiaeth Ofalgar:**

*'Canolbwyntio ar y presennol, dysgu sut i gymryd eiliad i anadlu, mor syml ond mor bwysig, rwyf am geisio defnyddio hyn yn ddyddiol'*

**Deallusrwydd emosiynol:**

*'Cyflwynwyd y sesiwn yn dda iawn ac roedd yr elfennau rhyngweithiol/gwaith grŵp yn dda iawn. Roedd dysgu am sut y gall emosiynau effeithio'n fawr ar eraill yn ddefnyddiol iawn'*

**Rhaglenni Datblygu Cymru Gyfan**

Roedd y rhain yn cynnwys rhaglenni a chyrsgiau oedd yn eiddo i Academi Wales ac a ddarparwyd gan Academi Wales, a rhai a gomisiynwyd gan ddarparwyr allanol. Bu i ni ddarparu 45 o ddiwrnodau o ddarpariaeth i 350 o gynrychiolwyr. Bu iddynt astudio:

- 7 o Arferion Pobl Dra Effeithiol
- Cymhwyso Seicoleg Gadarnhaol
- Meithrin Perthnasoedd Effeithiol
- Deallusrwydd Emosiynol
- Archwilio Rhaglen Hunan Ddatblygu
- Archwilio a Cherdded
- Rheoli Newid yn Llwyddiannus
- Ymwybyddiaeth Ofalgar
- Sbardun
- Deall Gwytnwch Meddyliol
- Sgiliau Hwyluso



Cyfranogwyr yn paratoi i Archwilio a Cherdded yn Ystafbwl, Sir Benfro

## Cefnogaeth Uniongyrchol i Sefydliadau

Bu i ni ddarparu hyfforddiant mewnol pwrpasol i dros 60 o sefydliadau drwy gydol y flwyddyn. Bu i hyn alluogi datblygu sefydliadol a galluogrwydd arweinyddiaeth wrth i ni fonitro ac ymateb i geisiadau gan unigolion a sefydliadau. Hefyd, bu i ni weithio'n actif â sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus oedd yn cael anhawster neu'n mynd drwy newid mawr, yn cynnwys Cymwysterau Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a nifer o gleientiaid o'r sector tai.

## Rhaglenni olyniaeth

### Cynllun Rheoli GIG Cymru i Raddedigion

Dyluniwyd y rhaglen llwybr cyflym dwy flynedd hon er mwyn bodloni gofynion strategol galluogrwydd rheoli yn y GIG. Mae'n rhaglen sy'n cael ei chynnal yn y gweithle, sy'n arfogi graddedigion â'r sgiliau i weithio yn y GIG, yn ogystal ag ennill cymhwyster proffesiynol Lefel Meistr.

Bydd y cohort presennol o bedwar ar ddeg o raddedigion, sydd wedi cael eu lleoli mewn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar draws Cymru, yn dod i ben ym mis Awst 2016. Mae'r graddedigion wedi datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth a rheoli ac wedi gwella eu gallu i gydweithredu ar draws ffiniau proffesiynol a sefydliadol. Maent yn gweithio tuag at MBA (Rheoli Gofal Iechyd Proffesiynol) gyda Phrifysgolion Glyndŵr ac Abertawe, ac mae hynny wedi rhoi'r wybodaeth ddamcaniaethol iddynt fydd yn gymorth iddynt yn eu lleoliadau gwaith a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

Ym mis Tachwedd 2015 bu i ni ofyn am geisiadau a lansio ymarferiad recriwtio er mwyn canfod deg o raddedigion er mwyn cychwyn arni ym mis Medi 2016.

## Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol

Bu i ni gomisiynu gwerthusiad allanol annibynnol er mwyn casglu barn cyfranogwyr o'r ddau grŵp cyntaf am y rhaglen, yn ogystal â'r effaith mwy hirdymor ar eu harferion arwain. Bu i'r gwerthusiad hwn, a gwblhawyd gan Uned Caerdydd ar gyfer Ymchwil a Gwerthuso Addysg Feddygol a Deintyddol (CUREMeDE), ganfod bod 'y rhaglen wedi bodloni'r disgwyliadau a mwy'. Roedd yr elfennau llwyddiannus yn cynnwys:

- siaradwyr allanol rhagorol
- y cwrs preswyl
- rhwydweithio gyda chymysgedd o lefelau o hynafedd ac arbenigedd
- setiau dysgu gweithredol
- trefnu a chymorth gan Academi Wales
- caffael a/neu ymestyn damcaniaeth a gwybodaeth am arweinyddiaeth
- effaith ar amcanion gyrfa

Bu i 21 o gyfranogwyr gwblhau'r rhaglen ym mis Medi 2015, ac ar y diwedd cyflwynwyd eu prosiectau gwella gwasanaethau/effaith ar gleifion i noddwyr a rheolwyr llinell. Bu i 90% o'r cyfranogwyr ddewis dilyn achrediad academiaidd aliniedig a llwyddo i ennill Tystysgrif Ôl-radd mewn Arweinyddiaeth Glinigol drwy Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a bu i nifer basio â gradd rhagoriaeth.

*'Fy nghyflwyniad cyntaf i unrhyw ddamcaniaeth ynglŷn â rhai o'r materion rheoli ac arweinyddiaeth yr oedd yn rhaid i mi ddelio â hwy'*

*'Yn bendant wedi gwneud rhai newidiadau i'r ffordd yr oeddwn yn ymddwyn mewn rôl arweinyddiaeth'*

*'Bu i mi ymgeisio i gael lle ar y cynllun oherwydd fy mod eisiau gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl, ac rwyf yn wir yn meddwl fy mod yn gwneud hynny'*

*'Rwyf yn teimlo fy mod wedi datblygu nid yn unig yn broffesiynol ond hefyd yn bersonol mewn cyfnod byr o amser'*

### Arweinwyr Llawn Dyhead

Bu i ni ddarparu ymyriadau er mwyn helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hymddygiadau wrth iddynt ddyheu i gyflawni eu rolau arweinyddiaeth. Bu i ni ddefnyddio amrywiaeth o offer, modelau a chyfleoedd fel rhan o'n cymorth, yn cynnwys dysgu gweithredol, datblygiad personol a chymorth

alumni, rheoli gyrfaoedd, hyfforddiant a mentora ac adborth diagnostig. Bu i ni weithio ag amrywiaeth o sefydliadau megis Bwrdd Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau sy'n Agored i Niwed Llywodraeth Cymru (ESVG) a nifer o Fyrddau Iechyd Prifysgol, yn cynnwys Cwm Taf, Abertawe Bro Morgannwg ac Aneurin Bevan

Bu i ni hefyd ddarparu hwyluso pwrpasol, yn cynnwys:

- Gweithdai adolygu cymheiriaid ar Gynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer GIG Cymru.
- Gweithdai strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.



Cyfranogwyr Cynllun Rheoli Graddedigion GIG Cymru

# Dosbarthiadau meistr a seminarau arbenigwyr

*Sharon Turnbull: 'Doethinebau brodorol a hynafol, syml, hawdd i'w deall, oesol. Mae angen i'r byd gorllewinol agor ei lygaid'*

Bu i bob un o'n 'cyfresi dosbarth meistr', a fynychwyd gan dros 125 o uwch arweinwyr yn ystod y flwyddyn, archwilio themâu perthnasol oedd yn ystyried anghenion ymarferwyr ac arweinwyr, ac archwilio syniadau newydd gan y gymuned ymchwil academiaidd. Y themâu a drafodwyd oedd:

- 'Polisi Cyhoeddus' gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru
- 'Myfyrio ar Arweinyddiaeth' gyda Roger Lewis
- 'Arweinyddiaeth ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol' gyda'r Athro Sharon Turnbull (a gynhaliwyd ddwywaith er mwyn ymateb i'r galw)
- 'Meddwl yn Eang, Arweinyddiaeth ar gyfer Gweddnewid' gyda'r Arglwydd Chris Holmes

Hefyd, bu i ni gynnal nifer o gyrsiau gwella parhaus byrion:

- Nesta – 'Gwelliant Amharhaol: gwneud y newidiadau sydd eu hangen'
- Synergy Lab
- Llywodraeth Cymru - Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gydag Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Cyflwyniad codi ymwybyddiaeth ar gyfer y sector cyhoeddus
- System Cymhwysedd Darbodus (LCS) - Y System Cymhwysedd Darbodus
- Llywodraeth Cymru - 'Buddsoddi i Arbed'

## Datblygu Byrddau

Mewn partneriaeth â Chonffederasiwn GIG Cymru, cynhaliwyd seminar datblygu strategol a gwneud penderfyniadau ym Mehefin 2015.

Bu i 120 o arweinwyr y GIG fynychu'r seminar a roddodd gyfle i aelodau bwrdd:

- adolygu enghreifftiau o arfer dda gan ddarparwyr gofal iechyd blaenllaw yn y DU, academia, ymchwilwyr ac arbenigwyr ym maes iechyd sefydliadol ac ymddygiad;
- datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymddygiad mewn perthynas â datblygiad strategol a gwneud penderfyniadau; a
- gwella addasrwydd i'r diben eu sefydliadau o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd diogel ac effeithiol ar gyfer y cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Roedd y prif siaradwyr yn cynnwys Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Aoife McDermott, Uwch Ddarlithydd yn Ysgol Fusnes Caerdydd, Tracy Bullock, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbytai Canol Caer a Colin Price, Cadeirydd, Cwmni.

# Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol

Bu i ni weithio â sefydliadau er mwyn rhoi cyngor, arweiniad a darparu rhaglenni ag iddynt effaith strategol a sefydliadol. Drwy'r ymyriadau hyn, roeddem yn gallu mynd ymhellach na'n sesiynau hyfforddi 'untro' a dylunio pecynnau oedd wedi'u teilwra i fodloni'r anghenion hyfforddi penodol. Roedd ein cleientiaid yn cynnwys:

## Cyngor Bro Morgannwg

Bu i ni roi cymorth i'r 'Caffi Arweinyddiaeth', dull arloesol o ddysgu arweinyddiaeth. Gwahoddwyd staff i ymgysylltu a chymryd rhan mewn ymarferion arweinyddiaeth ar bob lefel. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi darparu datblygiad rhyngweithiol i dros 150 o gyfranogwyr yn y caffi gwirfoddol (y tu allan i oriau) ar arweinyddiaeth addasol, sut i ddefnyddio seicoleg gadarnhaol yn y gweithle a datblygu sefydliad hyfforddi.

## Cymwysterau Cymru

Bu i ni gefnogi datblygu tîm uwch arweinyddiaeth Cymwysterau Cymru, oedd yn canolbwyntio ar sgiliau ac ymddygiadau arweinyddiaeth uwch. Bu i hyn alluogi datblygu'r tîm o'r cychwyn ac roedd yn cynnwys sesiynau ar ymddygiadau arweinyddiaeth addasol a chymhwysio seicoleg gadarnhaol yn y gweithle.

## Ymarferiad Aur Cymru

Mae hwn yn ymarferiad efelychu argyfwng dros ddau ddiwrnod a grëwyd gan Lywodraeth Cymru ac a ddyluniwyd i fynd i'r afael â chymhlethdodau ymateb i argyfwng ac adferiad yng Nghymru.

Bu i Dîm Cydnerthu Llywodraeth Cymru a Grŵp Cydwasanaethau Argyfwng Cymru ofyn i'r darparwr, Eleisha Cymru, ddarparu asesiad ac achrediad er mwyn ategu'r ymarferiad.

Bu i ni ddarparu cyllid er mwyn cefnogi datblygu dwy uned Lefel 6 â sicrwydd ansawdd, fyddai'n cael eu datblygu gan Eleisha Cymru mewn partneriaeth â'r corff dyfarnu, Agored Cymru. Hyd yma mae 32 o Gomanderiaid Aur wedi cwblhau'r achrediad yn llwyddiannus.

Ymestynnwyd yr unedau gwreiddiol er mwyn creu Gwobr Lefel 7 newydd a Thystysgrif mewn Cydnerthedd Amlasiantaeth Strategol. Mae'r cymhwyster Cymreig hwn yn unigryw o ran mynd i'r afael ag anghenion pob sefydliad ymateb a bydd yn cael ei gydnabod drwy'r D.U. gyfan. Mae'r dystysgrif yn creu llwybr dilyniant tuag at MSc mewn Rheoli Trychinebau ar gyfer Peryglon Amgylcheddol, Gofal Iechyd Trychinebau a Llywodraethiant Byd-eang ym Mhrifysgol De Cymru.

## Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

Bu i ni gefnogi Bwrdd Iechyd Addysgu Powys gyda'u 'Cynllun Un Bowys' drwy fynychu digwyddiadau a gweithdai a gweithio â'r Tîm Gweithredol er mwyn datblygu eu ffordd o feddwl a'u gweledigaeth.

## Hyfforddwyr Gwasanaethau Cyhoeddus

### Hyfforddi'r Hyfforddwyr

Bu i'n digwyddiadau 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' wella galluogrwyd ymarferwyr ac ehangu eu gwybodaeth drwy ddarparu hyfforddiant mewnol a deunyddiau i hyfforddwyr eu defnyddio yn eu sefydliadau eu hunain. Bu i'r rhaglen hon alluogi defnyddio adnodd hyfforddi cydweithredol ar draws sefydliadau, gan ddarparu cynaliadwyedd a thaenu gwybodaeth ac addysg.

Fe'i datblygwyd hefyd i'w chynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys cyrsiau megis Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol, Meithrin Perthnasoedd Effeithiol a Rheoli Newid yn Llwyddiannus.

## Model Arweinyddiaeth Gofal Iechyd (HLM)

Bu i ni lansio'r sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwyr hyn yn Ionawr 2015, ac rydym wedi llwyddo i achredu naw o hyfforddwyr HLM GIG Cymru, sydd wedi hyfforddi 46 o hwyluswyr HLM newydd. Bu i ni gyfarfod â'r hyfforddwyr yn ystod gwanwyn 2016 i drafod eu cynnydd a rhoi adborth i Academi GIG.

## Talent ac Olyniaeth y GIG

Bu i ni gefnogi datblygu Strategaeth Talent ar gyfer GIG Cymru. Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar ymchwil sy'n awgrymu mai profiad wrth weithio yw prif rinwedd ddiffiniol Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol effeithiol, ac y dylent gael y cyfle i ddysgu sut i arwain mewn rolau amlwg iawn. Mae hyn hefyd yn cael ei ategu gan ymchwil sy'n awgrymu ei bod yn cymryd 10,000 awr o ymarfer ymdrechgar o safon neu ddeng mlynedd o brofiad o safon i fod yn arbenigwr mewn rôl arweinyddiaeth.

Y blaenoriaethau a nodwyd yw:

1. Creu rhwydwaith arweinyddiaeth er mwyn galluogi cysylltiad ag uwch arweinwyr ar draws GIG Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.
2. Datblygu system o reoli cyfleoedd er mwyn sicrhau bod rhai a glustnodwyd fel pobl dalentog yn dod i gysylltiad â phrofiad priodol o'r sector cyhoeddus.
3. Sicrhau bod rolau uwch arweinyddiaeth yn cael eu hystyried fel cyfleoedd deniadol yn y dyfodol a bod eu gwerthoedd model rôl a'u hymddygiadau yn ysgogi rhai y clustnodwyd bod ganddynt botensial mawr.

## Dysgu@GIGCymru

Bu i ni barhau i roi cefnogaeth i reoli a datblygu e-ddysgu a gynhaliwyd ar blatfform Dysgu@GIGCymru drwy'r Bwrdd Rheoli Gwasanaeth.

## Gwella Parhaus (GP)

### Sefydliad Gwella Parhaus mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (ICiPS)

Bu i ni barhau i ddatblygu cysylltiadau buddiol i'r ddwy ochr gydag ICiPS a chyfrannu'n barhaus ar y Bwrdd Cyfarwyddwr. Bu i hyn ein galluogi i arsylwi a dysgu o arfer da newydd 'Y D.U. gyfan', yn ogystal ag arddangos ein llwyddiannau ein hunain.

### Rhwydwaith Lleol GP y Gwasanaeth Sifil (Rhanbarth Cymru a De Orllewin Lloegr)

Bu i ni annog a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer y grŵp yma er mwyn rhannu ac ymgysylltu â dysgu oedd yn gysylltiedig â datblygiadau yng Nghymru a'r agenda GP yn y D.U. gyfan.

### Cymuned Ymarfer Gogledd Cymru

Bu i ni gynyddu ac ehangu cyfranogiad mewn digwyddiadau NWCoP yn cynnwys sesiynau 'siaradwyr gwadd' ac ymweliadau 'Dysgu a Rhannu' ag Airbus.

### Arloesedd

Gan ystyried yr angen i annog a hyrwyddo mantais gystadleuol drwy gymhwyso arloesedd, bu i ni ffurfio partneriaethau gyda Nesta, Synergy Lab, y Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol a Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI).





Staff Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn dangos eu tystysgrifau ar ôl llwyddo i gwblhau eu hyfforddiant Gwelliant Parhaus lefel 'Ymarferwyr' - rhaglen GP uwch chwe diwrnod a gdnabyddir gan ICiPS

## Academaidd

Drwy ein gwaith datblygu, bu i ni gynyddu lefel a thaeniad ymgysylltu ar draws y sector academaidd. Bu i ni weithio gyda sefydliadau er mwyn esblygu ymchwil a darpariaeth ymarferwyr mewn perthynas ag arweinyddiaeth a datblygiad sefydliadol.

### Rhwydwaith Datblygu Sefydliadol ar gyfer Ewrop (ODN)

Bu i ni gynllunio gweithio mewn partneriaeth am dair blynedd gyda'r ODN oedd yn cynnwys cefnogi eu gwobrau blynyddol. Hefyd bu i ni gynnal sesiwn newid llwybr rheoli, ac arddangos poster yn eu cynhadledd agoriadol.

### Grŵp Diddordeb Arbennig Ysgol Fusnes Sir Gaerhirfryn ar gyfer Dylunio a Datblygu Sefydliadol

Cawsom ein cynrychioli yn niwrnodau datblygu chwarterol LUMS SIG er mwyn trafod ymchwil a thueddiadau yn y dyfodol. Hefyd bu i ni gyfrannau at bapur gwyn Ysgol Fusnes Sir Gaerhirfryn ar 'Ddysgu a Datblygu ar gyfer y Dyfodol'.

### Sefydliadau Academaidd Cymreig

Bu i ni wahodd cynrychiolwyr ar draws y prifysgolion yng Nghymru i gymryd rhan mewn Digwyddiad Trafodaeth Academaidd. Yn y fforwm, roedd y prifysgolion yn rhannu ac yn datblygu ymchwil, fydd yn esblygu arbenigedd yn seiliedig ar yr ymarferwr. Bu iddo hefyd

ein galluogi i drosglwyddo ymchwil nodedig o Gymru i'r datblygu arweinyddiaeth a gynigir gennym ac mewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill.

### Ymyriadau pwrpasol

Gwelsom gynnydd sylweddol mewn ymgysylltu ymysg sefydliadau academaidd a bu i ni gynnal amrywiaeth o sesiynau datblygu a chynadledda. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Arweinyddiaeth Addasol - Cynhadledd Datblygu Arweinyddiaeth Prifysgol Abertawe
- Tueddiadau Arweinyddiaeth yn y Dyfodol - Rhaglen Meistr Prifysgol Abertawe
- Tueddiadau Arweinyddiaeth yn y Dyfodol - Prifysgol De Cymru
- Arweinyddiaeth Addasol - Prifysgol Fetropolitan Abertawe
- Rhaglen Datblygu i Ferched - Prifysgol Caerdydd
- Deall Gwytnwch Meddyliol - Prifysgol Caerdydd, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol

Bu i ni weithio ag academyddion, rheolwyr a myfyrwyr ar draws y sefydliadau hyn a gweithio mewn partneriaeth, megis cydgefngi Rhaglen Genedlaethol Merched mewn Bywyd Cyhoeddus gydag Ysgol Fusnes Caerdydd ym Mhrifysgol Caerdydd a rhannu gwaith rhaglen Arweinyddiaeth Crwsibl Cymru ar gyfer ymchwilwyr mewn sefydliadau academaidd a sefydliadau'r sector cyhoeddus.

# Cydnabod rhagoriaeth



*Joy Ballard, Ysgol Uwchradd Cardiff Willows, yn derbyn ei gwobr gan Chris Jones, Academi Wales, am Arweinyddiaeth yn y Sector Cyhoeddus 2015.*

Rydym yn cefnogi tair gwobr sy'n cydnabod rhagoriaeth mewn arweinyddiaeth gwasanaeth cyhoeddus.

## 'Cyfarwyddwr yn y Sector Cyhoeddus' Sefydliad y Cyfarwyddwyr

Mae'r wobwr yn canolbwyntio ar y lefel weithredol a thair haen uchaf arweinyddiaeth. Ein cyfarwyddwr, Jo Carruthers, oedd y beirniad ar ran Academi Wales - mae Jo ar y panel beirniad ar gyfer y naw categori ar gyfer enwebeion yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

## 'Arweinyddiaeth yn y Sector Cyhoeddus' Gwobrau Arwain Cymru

Yn 2015, am yr unfed flynedd ar ddeg, cynhaliwyd unig gwobrau 'Cymru gyfan' sy'n dathlu arweinyddiaeth fu'n wirioneddol ddylanwadol. Mae'r gwobrau yn clustnodi rhai o'r arweinwyr hynny sy'n cyfrannu tuag at yrru ffyniant a llesiant Cymru yn ei flaen. Ein Cyfarwyddwr Datblygiad Sefydliadol, Zoe Sweet, oedd y beirniad ar ran Academi Wales.

## Gwobrau Rhagoriaeth Cymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd (HPMA)

Rydym yn cefnogi Gwobr HPMA am Ddatblygu Arweinyddiaeth, sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo gwaith eithriadol ym maes rheoli adnoddau dynol gofal iechyd. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n arddangos cysylltiad cryf rhwng arweinyddiaeth arloesol a pherfformiad sefydliadol uwch.

Mae'r wobwr, a ddisgrifir fel y diemwnt yng nghoron HPMA, yn dathlu rhagoriaeth yn y proffesiwn. Mae'r enillwyr a'r rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn dychwelyd i'w sefydliadau gyda theimlad o lwyddiant ac maent yn rhoi hwb i forâl eu timau, gan wybod bod eu harferion rhagorol wedi cael eu cydnabod gan eu cymheiriaid ac y gellir rhannu hynny drwy'r GIG.



*Kevin Jones, Mid and West Wales Fire & Rescue Service accepting his award from Jo Carruthers, Academi Wales, for IOD Wales Director of the Year 2015*

# Cyhoeddiadau

Bu i ni wneud cyfraniadau i ymchwil a chyhoeddiadau ar ddamcaniaeth arweinyddiaeth a datblygu arweinyddiaeth. Roedd hyn yn cynnwys penodau mewn dau lyfr a gyhoeddwyd gan Kogan Page:

- Changing Times for the Public Sector – pennod saith
- Developing Resilient Organizations – ‘How to create an adaptive, high-performance and engaged organization’
- Developing Mental Toughness – ‘Coaching strategies to improve performance, resilience and wellbeing’

Bu i ni gynhyrchu papurau ar gyfer Tîm Cyfarwyddwr Gweithredol GIG Llywodraeth Cymru, Prif Weithredwr a Grwpiau Cyfarwyddwyr Gweithluoedd, yn cynnwys:

- Datblygu Rhaglen Arweinyddiaeth y GIG
- Arweiniad Clinigol
- Addysg Gofal Iechyd ar draws Cymru

Bu i ni gynhyrchu erthygl yn hyrwyddo gwaith gwelliant parhaus Academi Wales a Chymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan:

- Rhifyn Gorffennaf/Awst Lean management Journal: ‘Wales: the land of Lean’

## Hau Hadau

Bu i ni lansio pedwar cyhoeddiad Hau Hadau newydd yn Ysgol Haf 2015, sy'n golygu ei fod yn gasgliad o bedwar rhifyn ar ddeg erbyn hyn.

Y testunau newydd a gyflwynwyd oedd:

- Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol - Canfod hapusrwydd yn y gwaith a'r cartref'
- 'Archwilio a Cherdded - Cysylltu'r corff a'r meddwl'
- 'Arweinyddiaeth a Thrawsnewid Sefydliadol - creu synergedd rhwng yr hunan a'r system'
- 'Ymholi Gwerthfawrogol - Gwelliant cynaliadwy drwy adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'



# Enw da ac ymgysylltu

Er mwyn cefnogi'r gwaith ar draws Academi Wales bu i ni atgyfnerthu ein platfform ar-lein a'n presenoldeb digidol, darparu cefnogaeth logisteg i'n digwyddiadau dysgu, monitro ac adrodd ar adborth gwerthuso, comisiynu a chynhyrchu cynhyrchion ac adolygu ein rhaglenni a'n gwasanaethau yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg.

## Strategaeth Ddigidol a Chynllun Cyfathrebu

Bu i ni ymgysylltu â'n cynulleidfa ar draws amrywiaeth o sianelau cyfathrebu, creu trydaron, blogiau a fideos 'vox pops' fel rhan o'n strategaeth i gynyddu ein cyrhaeddiad a'n dylanwad. Ein Bwletin Cyfleoedd fu ein dull cyfathrebu mwyaf poblogaidd eto a thyfodd nifer y tanysgrifwyr bob mis.

### Gwefan

Bu i ni barhau i ddatblygu ein gwefan, gyda chynnwys newydd, cyrsiau ac erthyglau newyddion. Bu i ni hefyd gychwyn prosiect datblygu gwefan sylweddol a bu i ni weithio ar hyn yn hyblyg yn unol ag anghenion defnyddwyr, adolygu cynnwys a diweddarau deunyddiau. Bydd y wefan newydd yn cael ei lansio yn 2016.

### e-ddysgu

Bu i'n Sianel ddysgu barhau i ddarparu mynediad ecsglwsif i amrywiaeth o ddysgu ar-lein, yn cynnwys ein porth e-ddysgu Skillport, oedd yn cynnig modiwlau dysgu ar arweinyddiaeth, newid a gwella gwasanaeth.

## Gwerthuso rhaglenni a digwyddiadau

Roedd adborth o'n digwyddiadau a'n rhaglenni yn parhau i fod yn gadarnhaol. Y sgôr gwerthuso cyfartalog yn ystod 2015-16 oedd 97%.

*'Gwefan a chyfathrebu gwych yn fy nghadw mewn cysylltiad â dysgu a datblygiad proffesiynol.'*


*'Cefnogol a phroffesiynol eithriadol'*

*'Rhaglenni dysgu rhagorol, wedi eu trefnu'n dda, ac wedi eu cyflwyno'n dda gan diwtoriaid arbenigol'*


*'Pleserus iawn a buddiol. Cymysgedd dda o ymchwil academaidd/barn arbenigol a thrafodaeth cymheiriaid'*

## Cynrychiolwyr yn ôl lefel

Rydym yn darparu digwyddiadau dysgu ar gyfer ystod o gynulleidfaedd ar draws Cymru. Mae'r graffiau canlynol yn dangos y mathau o gynulleidfaedd, lleoliadau ein digwyddiadau a chefnidir sector y cynrychiolwyr a gymerodd ran yn ystod 2015-16.



## Lleoliadau digwyddiadau



## Polisi codi tâl am raglenni a pholisi canslo

Bu i ni barhau i gynnig y rhan fwyaf o'n cynhyrchion a'n gwasanaethau am ddim. Pan godwyd tâl am raglenni, megis Ysgolion Haf a Gaeaf, roedd hynny'n seiliedig ar gymhorthdal, a'r arian hwnnw'n cyfrannu tuag at gostau'r lleoliad a phreswyllo.


Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein holl raglenni, yn cynnwys y rhai y codir tâl amdanynt, yn cynnig gwerth am arian eithriadol i'r pwrs cyhoeddus. Mae ein polisi canslo yn amcanu at sicrhau bod cymaint â phosibl o gynrychiolwyr yn cymryd rhan ac at leihau gwastraffu arian.

## Rheoli arian ac adnoddau

Bu i ni lwyddo i ddarparu rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau gyda gostyngiad o £211,000 ers y flwyddyn ariannol flaenorol i £1.24 miliwn.

Yn seiliedig ar gyfanswm cyllideb rhaglenni o £1.24 miliwn, a chyfanswm o 9383 o gynrychiolwyr yn mynychu 333 o ddiwrnodau hyfforddi, mae'r gost ddarparu gyfartalog yn cyfateb i £132 am bob cynrychiolydd.

## Cynrychiolwyr yn ôl sector



## Ymgysylltu staff

Bu i ni barhau i adlewyrchu patrymau gweithio amrywiol, yn cynnwys llawn amser, rhan amser a staff cyfnod penodol. Bu i ni gyflawni ein rhaglen mewn cyd-destun heriol o ran canfod staff, yn ogystal â setliad ariannol. Ein nifer ar gychwyn 2015-16 oedd 30, yn cynnwys tri secondiad o wasanaeth cyhoeddus Cymru a thair swydd wag.

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd ein nifer yn 30, yn cynnwys 2 benodiad cyfnod penodol a 4 swydd wag.

Er gwaethaf gostyngiad mewn adnoddau, bu i ni barhau i werthfawrogi cyfleoedd i ddatblygu unigolion a'r tîm. Roedd aelodau'r tîm yn cofleidio'r her o gaffael a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg, a bu i chwech ymrwymo i ddysgu preswyl dwys yn y Ganolfan Iaith a Threftadaeth Genedlaethol, Nant Gwrtheyrn.

Yn ogystal â'r datblygiad technegol a'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'n staff eu darparu i'r safon uchaf, mae'r tîm hefyd yn cyfrannu tuag at nifer o brosiectau oedd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i'n cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Dyma rai o'r prosiectau allweddol y bu i ni eu cefnogi yn ystod y flwyddyn:

- casglu bwyd Nadolig am y bedwaredd flwyddyn ar gyfer FareShare Cymru
- mentrau i godi arian ar gyfer nifer o achosion elusennol
- casgliad parhaus o hetiau, menig a sgarffiau a phethau ymolchi ar gyfer eu rhoi i Cymru Ddiogelach.
- casglu tyweli a dillad gwely ar gyfer Canolfan Huggard, Caerdydd

Mae canlyniadau Arolwg Staff Blynnyddol y Gwasanaeth Sifil yn creu darlun cryf o'r ymgysylltu tîm a welir yn y gwaith yr ydym yn ei gyflawni. Bu i ni sgorio 92% ac uwch yn erbyn yr ysgogiadau ymgysylltu canlynol:

- Fy ngwaith
- Amcanion a phwrpas sefydliadol
- Fy nhîm

Mae hyn yn cymharu â sgôr o 88% yn ystod 14-15.



Gweithdy Hyfforddi Shelter Cymru



